

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2021

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Sylwadau Cyffredinol

Oherwydd pandemig y Coronafeirws, hwn oedd y tro cyntaf i'r Gymdeithas fedru cynnal arholiadau aelodaeth ers dwy flynedd, a chan fod rhaid cymryd ffactorau fel cadw pellter cymdeithasol i ystyriaeth, penderfynwyd cynnal yr arholiadau ar y lefel Gyflawn yn unig y tro hwn. Braff oedd gweld nifer tebyg o ymgeiswyr i'r hyn a gafwyd ddwy flynedd yn ôl, a da medru dweud hefyd bod y broses o sefyll yr arholiadau wedi mynd rhagddi'n ddigon hwylus. O ran gwaith yr ymgeiswyr, braff yw medru dweud bod enghreifftiau o gyfieithu graenus oedd yn taro deuddeg gan bawb ohonynt, ac mai anhawster i gynnal safon eu gwaith gorau ar draws y tri darn oedd yn atal yr ymgeiswyr aflwyddiannus rhag llwyddo y tro hwn. Mae Aelodaeth Gyflawn yn bendant o fewn cyrraedd pawb ohonynt, a gobeithio bydd y rhai na fuont yn llwyddiannus y tro hwn yn sefyll eto'n fuan, ar ôl mireinio eu gwaith rywfaint yn fwy. Roedd y darn gwaith cartref a ddewiswyd yn arbennig o heriol, ond er bod rhai gwendidau, nid oedd neb o'r ymgeiswyr wedi cael eu llorio ganddo, ac mae hynny'n ategu'r ffaith eu bod wedi cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn, ac mai gweithio i gynnal y safon honno yn eu holl waith sy'n ofynnol bellach.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 9

Llwyddo: 2

Er mai dau ymgeisydd yn unig fu'n llwyddiannus y tro hwn, fel y soniwyd uchod, roedd rhannau o waith pawb yn amlygu iaith gywir, cystrawen gadarn a chyfieithu glân, naturiol. Ar un ystyr mae hynny'n destun siom, gan fod cynifer o'r ymgeiswyr mor agos at y lan, ac eto'n methu â chynnal y safon. Rhaid pwysleisio eto mai cymhwyster cyfieithu proffesiynol sydd dan sylw, a bod Aelodaeth Gyflawn yn cymeradwyo cyfieithwyr fel rhai a fydd yn cyflwyno gwaith di-fai heb i neb arall fwrw golwg drosto. O'r herwydd, rhaid sicrhau bod yr ystyr yn cael ei gyfleu'n gwbl gywir bob tro, ac nad oes unrhyw wallau esgeulus yn llithro

trwy'r rhwyd. Yn ogystal â medru cyfieithu darn yn raenus, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ar y lefel hon fedru ei brawfddarllen yn drylwyr, fel bod unrhyw fân frychau yn cael eu cywiro cyn cyflwyno'r gwaith yn derfynol.

Mae darn gwaith cartref wedi cael ei osod sawl tro erbyn hyn, ac mae'r darn hwn, er ei fod yn fwriadol heriol, yn gyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau, heb fod o dan bwysau amodau arholiad. Siom y tro hwn oedd gweld un ymgeisydd yn cyflwyno darnau arholiad graenus, ond heb lwyddo i gynnal y safon honno yn y darn gwaith cartref. Gan fod sawl enghraifft o hyn wedi codi mewn gwahanol arholiadau, mae'n werth pwysleisio unwaith yn rhagor bod disgwyliaidau'r arholwyr yn uchel iawn o ran y gwaith cartref, gan nad yw pwysau amser mor drwm yn achos y darn hwnnw, ac nid yw o dan amodau arholiad. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd fynd ati i gyfieithu'r darn gwaith cartref yn frysiog na heb ystyried y cynnwys yn ofalus, gan fod yr amser a'r rhyddid ychwanegol a ganiateir yn golygu bod disgwyl iddynt wneud unrhyw ymchwil angenrheidiol, a chanfod yr union air bob tro.

Addasiad o adolygiad ar wefan *Opera Wire* oedd dan sylw y tro hwn, ac fe gafwyd llawer o gyfieithu idiomatig, disglair, oedd yn dangos gallu'r ymgeiswyr, e.e.:

...who is finally getting his feet wet
...sydd o'r diwedd yn dechrau torri ei gwys ei hun
...sy'n mentro i'r dwfn o'r diwedd
...sydd o'r diwedd yn cael cyfle i fwrw iddi

Even if he did sometimes drift a little flat,
Er... iddo ganu fymryn o dan y nodyn weithiau,

...replaces a grimy, gloomy affair
...yn disodli fersiwn byglyd, ddiflas
...yn disodli cynhyrchiad di-raen, dilewyrch

...whose set audibly creaked
...lle gellid clywed y set yn griddfan

...which robbed the climax of its musical gut punch
...gan amddifadu'r uchafbwynt o'i ergyd gerddorol ysgytwol

...crisp consonants placed well before the beat
...cytseiniaid croyw ymhell cyn y curiad
...cytseiniaid clir cyn y curiad

Antonio Pappano has kept his powder dry...
...mae Antonio Pappano wedi bod yn aros ei gyfle...

...the poised plangency of the Act Two oboe solo
...i atsain bwyllog yr unawd obo yn Act Dau

Cafwyd llawer o gyffyrddiadau da yn y ddau ddarn o dan amodau arholiad yn ogystal, megis:

...after the pandemic has subsided
...wedi i'r pandemig gilio

...abnormally heavy rainfall, prolonged droughts, desertification
...glawiad anarferol o drwm, cyfnodau hir o sychder, ardaloedd yn troi'n ddiffaith

...whether some populations, ..., are disproportionately affected by certain policies.
...a yw effaith polisïau penodol yn anghymesur ar rai poblogaethau

...with distress probably stemming from people's limited social interactions
...ac mae'n debyg bod y trallod hwn yn deillio o allu cyfyngedig pobl i ryngweithio â'i gilydd

Studies and surveys conducted so far in the pandemic consistently show that young people, rather than older people, are most vulnerable to increased psychological distress
Mae astudiaethau ac arolygon a gynhaliwyd hyd yn hyn yn ystod y pandemig yn dangos yn gyson mai pobl ifanc, yn hytrach na phobl hŷn, sydd fwyaf tebygol o brofi mwy o ofid seicolegol

...they see this as a real opportunity to assess the impact of policies in different countries on people's mental health.
...maen nhw'n gweld hwn fel cyfle go iawn i asesu effeithiau (sic) polisïau mewn gwahanol wledydd ar ieched meddwl pobl.

People already displaced for reasons other than disasters linked to hazards
Mae pobl sydd eisoes wedi'u dadleoli am resymau heblaw am drychinebau sy'n gysylltiedig â pheryglon

Climate change is the defining crisis of our time
Newid yn yr hinsawdd yw argyfwng diffiniol ein hoes ni

This is the case in the Sahel region, which is facing one of the fastest growing displacement crises in the world.
Dyma sy'n digwydd yn rhanbarth Sahel, sy'n wynebu un o'r argyfyngau dadleoli sy'n cynyddu gyflymaf yn y byd.

Roedd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus fel y rhain i'w gweld yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, ond gwaetha'r modd, ochr yn ochr â hwy, cafwyd cyfieithu nad oedd yn taro deuddeg, a hynny am amrywiol resymau. Fel bob amser yn yr arholiadau Aelodaeth Gyflawn, un o'r gwendidau amlycaf oedd methiant i gyfleu union ystyr y gwreiddiol, fel yn yr enghreifftiau canlynol:

...perhaps because their need for social interaction is stronger.
...efallai gan eu bod yn awchu'n fwy am fod mewn cysylltiad â phobl eraill.

...and disaster displacement
...ac mae disodli poblogaethau

Even if he did sometimes drift a little flat...

Hyd yn oed os oedd o ychydig yn undonog ar adegau...

With a few wobbles...

Er gwaethaf ambell i gryndod...

...a surge in infections in many countries

...cynnydd mewn haint mewn rhai gwledydd

Antonio Pappano has kept his powder dry on this opera

Bu Antonio Pappano yn ochelgar iawn ynghylch yr opera hon

...millions of deaths, economic strife and unprecedented curbs

...miliynau o farwolaethau a'r cyfyngiadau digynsail

Limited natural resources

Adnoddau naturiol gwerthfawr

Álvarez brought a careworn, broken quality to this most Lear-like of roles.

Daeth Álvarez â naws luddedig a drylliedig i'r rhan hynod drasig hon.

Ymhlith yr enghreifftiau hyn mae rhai lle nad yw'r ymgeiswyr wedi deall union ystyr y gwreiddiol, lle nad ydynt wedi prawfddarllen eu gwaith yn ddigon manwl i gael gwared ar gamgymeriadau esgeulus, neu lle maent yn syml wedi gadael elfen heb ei chyfieithu (eto, dylai prawfddarllen gofalus gywiro gwallau o'r math hwnnw). Rhaid pwysleisio eto mai cyfieithu ar lefel gwbl broffesiynol sydd dan sylw yn y fan hon, ac er bod modd maddau ambell lithriad bychan o dan amodau arholiad, ni all ymgeisydd lwyddo os nad yw wedi golygu'r darn gwaith cartref yn ddigon gofalus.

Cafwyd nifer o wallau cywair yn ogystal, naill ai oherwydd nad oedd ymgeiswyr i bob golwg yn gyfarwydd â'r termau a ddefnyddir yn y maes, e.e. ***newidiadau yn yr hinsawdd, glaw*** (yn lle ***glawiad***), neu oherwydd bod dylanwad yr iaith wreiddiol yn rhy gryf, ac yn atal yr ymgeisydd rhag canfod idiom oedd yn taro deuddeg yn yr iaith darged, e.e. ***gwlychu ei draed*** (*getting his feet wet*) a ***cafodd draed emosiynol o dan ei berfformiad*** (*his performance found its emotional feet*). Rhaid pwysleisio eto, ar y lefel hon, nad yw cyfleu'r ystyr yn unig yn ddigonol, rhaid gwneud hynny mewn Cymraeg sy'n llifo'n naturiol, ac sy'n ddigon idiomatig i argyhoeddi'r darllenydd ei fod yn darllen darn Cymraeg gwreiddiol.

Ni chafwyd llawer o wallau cystrawennol yn y gwaith a gyflwynwyd, er bod ambell gyfieithiad braidd yn drwsgl, e.e. ***sy'n golygu nad yw'r cyfle ganddynt i adfer; eisoes yn achosi dros 20 miliwn o bobl ar gyfartaledd i ymadael â'u cartrefi; Nid yw effaith ddomino trychineb ar ôl trychineb a achoswyd gan newid yn yr hinsawdd yn difrodi cymunedau sydd eisoes yn dlawd yn rhoi unrhyw amser iddynt adfer; Caiff y newid yn yr hinsawdd effeithiau niferus a gallant sbarduno'r angen i ddadleoli***. Mae'r darnau a osodir i'w cyfieithu mewn arholiad ar y lefel hon yn gorfod bod yn heriol, a rhan o'r gamp i'r cyfieithydd yw gwybod pryd mae angen torri brawddegau, newid trefn yr elfennau

ynddynt, ac addasu mewn ffyrdd eraill (heb newid yr ystyr, wrth gwrs), er mwyn cyfleu neges y gwreiddiol yn naturiol yn yr iaith darged.

Siom oedd gweld ambell lithriad esgeulus gan rai o'r ymgeiswyr, e.e. **ofnai** (fears), **ar rhai, gadel, o'r ryngweithio, amser ddod at eu hunain, rhoi'r opera hon i'r neilltu** (oedd hefyd yn camgyfleu'r ystyr), **cynni** a **neu'r rhy oer**, ond at ei gilydd, roedd y gwaith a gyflwynwyd yn lân ac yn addawol iawn. Nid oedd yr un o'r ymgeiswyr ymhell o lwyddo, a charwn annog pawb o'r rhai a fu'n aflwyddiannus y tro hwn i fireinio'u sgiliau golygu, er mwyn dileu'r gwallau a'u hataliodd rhag cynnal y safon a welwyd yn eu gwaith gorau.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 5

Llwyddo: 2

Er mai dau ymgeisydd yn unig sy'n llwyddo y tro hwn, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu da yng ngwaith y tri arall. Trueni mawr oedd gweld un ymgeisydd hynod addawol yn gadael i wallau esgeulus amharu ar ei waith, ac yn wir yn hepgor brawddeg gyfan mewn un man. Yn achos y ddau ymgeisydd arall, mae safon eu cyfieithu gorau yn awgrymu'n gryf y byddant hwythau'n gallu llwyddo ar y lefel hon o gael mwy o brofiad. Darlun digon addawol a gafwyd, felly, ar draws y gwaith a gyflwynwyd, ond rhaid pwysleisio mai arholiad Aelodaeth Gyflawn yw hwn, ac felly bod disgwyl i'r cyfieithiadau a gwblheir gan yr ymgeiswyr gyrraedd safon gwbl broffesiynol. Fel mor aml, cynnal y safon honno yw'r broblem, er bod pob un o'r ymgeiswyr yn ei chyrraedd ar adegau.

Fel arfer, dewiswyd darn digon heriol ar gyfer y gwaith cartref, er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau, a chafwyd enghreifftiau o gyfieithu cadarn, graenus, fel y canlynol:

Aeth profi celfyddyd yn y cnawd yn beth prin, lletchwith dros y deunaw mis diwethaf.
Experiencing art in the flesh has become a rare, awkward occurrence over the last eighteen months.

...nad ydynt o reidrwydd yn teimlo'n gyfforddus ynddo fel arfer.
...where they may not usually feel at ease.

Ie, profiad rhyngweithiol sy'n bodloni, ac sy'n teimlo fel creadigaeth yn ei hawl ei hun, gêm gyfrifiadurol o hwyllo drwy felysion gweledol gan rai o artistiaid gorau Cymru.
It is indeed a satisfying interactive experience that feels like a creation in its own right, a computer game that navigates through the visual delights of some of Wales' best artists.

Tybed a yw gorfod troi'n ddigidol wedi bod yn gyfrwng i ni ailddychmygu, fel bod y rhithfyd yn borth i greu newid yn y byd go iawn?
I wonder whether the necessity to go digital has led us to reimagine the virtual world as a gateway for change in the real world?

Ar y llaw arall, gall ymweld ag oriel gelf gyfoes fod yn brofiad estron, oeraidd a chlinigol ar y gorau, cyn sôn am fasgiau a diheintyddion dwylo.

On the other hand, visiting a modern art gallery can be an alien, cold and clinical experience at best, before adding masks and hand sanitisers to the mix.

Gwelwyd llawer o enghreifftiau o gyfieithu crefftus hefyd yn y darnau arholiad, e.e.:

...pob cyhyr yn gweithio mewn cynghanedd dawel i wfftio disgyrchiant.
...every muscle working in quiet synchronisation to defy gravity.

Prysured y dydd pan ga i ailgydio yn fy hobi barbaraidd!
Roll on the day when I can return to my barbaric hobby!

Yn yr ysgol gynradd, roedd mabolgampau yn ddydd diddiwedd o ruddiau poeth a galw enwau.

In primary school, sports day was a never-ending day of flushed cheeks and name-calling.

...rolio yn y mwd am gwpan.
...rolling around in mud for the sake of a cup.

Yn yr ysgol uwchradd, fe ddes i'n fwy slei...
In secondary school, I became more cunning...

...gwelodd dalp go iawn o'r byd a'i bethau
...she saw a fair chunk of the world and its goings on

...roedd clasuron y cyfansoddwyr mawr yn rhwydd o dan ei llaw wrth y piano.
...she played the works of the great masters with ease on the piano.

Perthynas ddigon dadleugar fu gennym, ond ar y cyfan buon ni'n dau yn mwynhau'r mân gweryla...

We had quite an argumentative relationship but, on the whole, we both enjoyed the bickering...

...a bri a chwymp y capeli
...and the rise and fall of the chapels

Mewn enghreifftiau fel y rhain gwelir dawn i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn glir, a hynny mewn modd idiomatig, naturiol yn yr iaith darged. Mae cyfieithiad llwyddiannus yn argyhoeddi'r darllenydd mai darn gwreiddiol ydyw, a da oedd gweld enghreifftiau fel y rhain yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r rhain cafwyd enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus, a hynny am wahanol resymau. Weithiau, methwyd â chael hyd i'r union air oedd yn cyfleu ystyr y gwreiddiol, e.e. ***doubling back*** am *dorri llwybr tarw*, ***quote capaciously*** am *dyfynnai... yn eang*, ***large industries*** am *diwydiannau trymion*, ***the sarcastic shouts that would amplify*** i gyfleu y *fonllef sarcastig fyddai'n codi*, ***bouncing around this year's exhibition*** (*sboncio*).

Mewn mannau eraill roedd patrwm yr iaith wreiddiol yn dylanwadu'n ormodol, e.e. y defnydd o'r fannod ym mrawddeg gyntaf un y darn cyntaf, ***the draw towards the house*** (y *dynfa at y tŷ*), a ***within which they do not necessarily feel comfortable usually*** (*nad ydynt o reidrwydd yn teimlo'n gyfforddus ynddo fel arfer*).

Mae enghreifftiau fel y rhain yn amharu ar lif y cyfieithiad, ac yn dangos i'r darllenydd nad darn gwreiddiol Saesneg sydd yma. Maent hefyd, wrth gwrs, yn atal yr ymgeiswyr aflwyddiannus rhag cynnal safon Aelodaeth Gyflawn.

Fel y soniwyd eisoes, roedd llawer o bethau da yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr yn y rownd hon, a charwn annog y tri na fuont yn llwyddiannus y tro hwn i feithrin eu clust at batrymau'r Saesneg trwy ddarllen yn helaeth, ac i barhau i fireinio'u crefft, gan roi sylw arbennig i'r darlleniad terfynol cyn cyflwyno'u gwaith – mae llwyddiant yn bendant o fewn eu cyrraedd.

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon, fel bob amser, i holl aelodau'r Bwrdd Arholi ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Tachwedd 2021